

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


# Y Gell Cyngor Technegol

## Crynodeb o'r cyngor

20 Tachwedd 2020







OGL (h) Hawlfraint y Goron 2020

# Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb

20 Tachwedd 2020

## Crynodeb o'r Prif Bwyntiau

- Gostyngodd yr achosion o COVID-19 yn dilyn y cyfnod atal byr, gan wthio'r epidemig yn ôl tua 3 wythnos a chynnig arwydd cynnar o effaith gadarnhaol y cyfnod atal (sef tebygol iawn). Mae data mwy diweddar yn dangos bod yr effeithiau cadarnhaol hyn wedi'u colli i raddau helaeth, gan fod achosion bellach wedi dechrau dangos cynnydd (tebygol).

- Mae data symudedd yn ddangosydd cynnar o newidiadau yn y symudiad poblogaeth mewn ymateb i ganllawiau lleol a cenedlaethol. Cafodd y cyfnod atal byr effaith sylweddol ar symudedd a rhywfaint o effaith, yn ôl cofnodion hunangofnodedig, ar lynu wrth y cyfyngiadau mewn rhai categorïau (e.e. pobl yn aros yn lleol). Mae symudedd wedi dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn y cyfnod atal byr (tebygol iawn).

- Mae'r dangosyddion isod yn cynnwys oedi gan eu bod yn adlewyrchu'r sefyllfa yng Nghymru mewn wythnosau blaenorol yn hytrach na'r sefyllfa bresennol:

  - Mae SAGE yn amcangyfrif bod $R_t$ rhwng 0.8 ac 1.0 ac maent yn hyderus bod $R_t$ yn is nag 1 yng Nghymru. Mae SAGE yn amcangyfrif y gallai heintiau fod yn gostwng rhwng 0% a -4% y dydd.

  - Mae canlyniadau Astudiaeth Heintiadau COVID-19 y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod tua 1 person ym mhob 165 wedi cael COVID-19 yn yr wythnos 8– 14 Tachwedd (sef gwelliant o'r 1 o bob 85 a adroddwyd yr wythnos diwethaf). Ar ôl cyrraedd uchafbwynt ddiwedd mis Hydref, mae'r gyfradd bositifedd yng Nghymru wedi gostwng yn ystod y pythefnos diwethaf.

  - Mae'r defnydd o welyau mewn ysbytai oherwydd COVID-19 yn parhau'n uwch na'r dangosydd sbarduno cyfyngiadau 'coch' ac mae wedi dangos lefelau sy'n uwch na'r rhai a welwyd ym mis Ebrill. Gwelwyd rhai gostyngiadau yn ystod yr wythnos ddiwethaf yn y ffigurau ynghylch nifer y cleifion COVID-19 a chleifion eraill sydd mewn unedau gofal dwys, ond nid oedd gofal 1:1 yn bosibl o hyd i bob claf mewn rhai byrddau iechyd.

  - Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, roedd nifer y marwolaethau hyd at 13 Tachwedd 2020 9% yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd yng Nghymru, gyda 10% o'r rhain yn crybwyll COVID-19. Mae hyn yn is na'r hyn a welwyd yn Lloegr, lle'r oedd nifer y marwolaethau 13.3% yn fwy na'r cyfartaledd 5 mlynedd, gydag

11.6% o'r rhain yn crybwyll COVID-19. Fodd bynnag, wrth ystyried data diweddar o tua mis Hydref ymlaen, roedd y gyfradd marwolaethau ychwanegol ar gyfer Cymru yn uwch nag ar gyfer Lloegr (13% o gymharu â 9%) ac yn uwch na'r rhan fwyaf o ranbarthau Lloegr.

- Cyhoeddir papurau SAGE a ystyriwyd gan y Cell a'r Grŵp Cyngor Technegol yma.
- Cyhoeddwyd papur gan y Grŵp Cyngor Technegol ar y risg o haint SARS-CoV-2 mewn canolfannau sglefrio yma.

## Cyfradd twf a'r rhif atgynhyrchu

- Mae SAGE yn amcangyfrif (19 Tachwedd) bod y gyfradd twf ddyddiol bresennol rhwng -0.04 a 0.00 yng Nghymru, sy'n dangos y gallai heintiadau fod yn gostwng/sefydlogi rhwng -4% a 0% y dydd) (oedi o 2-3 wythnos).
- Mae amcangyfrif diweddaraf SAGE o'r rhif atgynhyrchu ($R_t$) ar gyfer Cymru (19 Tachwedd) rhwng 0.8 ac 1.0. Dangosir yr amcangyfrif o $R_t$ fel amrediad heb amcangyfrif canolog (oedi o 2-3 wythnos).
- Mae'r gwerth consensws SAGE ar gyfer $R_t$ yn seiliedig ar gyfartaledd wedi'i bwysoli o fodelau sy'n defnyddio achosion, derbyniadau i'r ysbyty, marwolaethau, a data o'r arolygon cyswllt. Mae gan lawer o'r dangosyddion hyn gyfnod oedi o 1-3 wythnos o'r adeg y pan fyddent yn nodi newid mewn heintiadau.
- Dylid bod yn ofalus o hyd wrth ddehongli amcangyfrifon $R_t$ a chyfraddau twf ar gyfer y DU oherwydd yr oedi anorfod sydd ynghlwm wrthynt, ac oherwydd bod y ffigurau hyn yn cuddio amrywiad yn nifer yr heintiadau, sut y mae'r cyfraddau trosglwyddo yn newid mewn rhai rhannau o'r wlad, ac argaeledd profion.
- Mae cyfradd twf sy'n is ond sy'n dal yn bositif, neu rif $R_t$ uwch nag 1, yn parhau i ddangos bod yr epidemig yn tyfu fwyfwy.
- Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli amcangyfrifon a dylid ystyried y cyfyngau hyder.

## Amser dyblu


- Mae SAGE yn amcangyfrif bod yr amseroedd dyblu ar gyfer heintiadau newydd ledled y DU rhwng 28 a 63 diwrnod.
- Mae anawsterau parhaus o ran dehongli data profi ac felly mae'r amcangyfrifon o'r amseroedd dyblu yn parhau'n ansicr. Mae heterogenedd sylweddol ar draws

ardaloedd daearyddol ac mae'n bosibl y bydd amseroedd dyblu neu haneru cyflymach mewn rhai ardaloedd.

## Diweddariad rhyngwladol

- Mae'r map isod yn dangos cyfradd gyfartalog yr achosion am bob 100,000 o bobl mewn cyfnod o 13 diwrnod yn wythnosau 45-46. Fel yr wythnos diwethaf, mae'n amlwg bod nifer yr achosion wedi codi i dros 240 o achosion am bob 100,000 o bobl mewn llawer o ranbarthau.

- Mae data ynglŷn â'r darlun ledled Ewrop, gan gynnwys cafeatau ynghylch oedi o ran data ac amrywiaeth mewn polisïau profi, ar gael yma.




<u>Mewnwelediad ychwanegol o Ffrainc</u>

- Mae'r llywodraeth yn cadarnhau'n breifat ac yn gyhoeddus bod y cyfyngiadau symud yn "gweithio", wrth i achosion newyddion barhau i ostwng.

- Er bod y niferoedd sydd mewn unedau gofal dwys wedi dechrau gostwng, mae'r sefyllfa o ran gwasanaethau ysbytai yn parhau i fod yn ddifrifol. Ddoe, roedd dros 33,000 o gleifion COVID-19 yn yr ysbyty o hyd, gan gynnwys mwy

na 4,700 mewn unedau gofal brys. Achosion COVID-19 sy'n cyfrif am 94% o gapasiti cyffredinol yr unedau gofal dwys.

- Bydd y trywydd o hyn tan y Nadolig yn cael ei amlinellu ddydd Mawrth nesaf, ond mae'n debyg y bydd y wlad yn parhau mewn cyfnod clo ysgafn tan fis Rhagfyr ac wedi hynny – ac mae'n annhebygol y bydd bariau a bwytai yn agor tan y flwyddyn newydd.

- Mae 'dydd Gwener gwario' yn cael ei ohirio wrth i'r llywodraeth ildio i bwysau gan berchnogion siopau.

- Er bod llywodraeth Ffrainc yn croesawu cyhoeddiadau diweddar am frechlynnau, mae bron hanner pobl Ffrainc yn dweud na fyddant yn cymryd un.

**Canlyniadau astudiaeth heintiadau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol**

- Ar gyfer yr wythnos 8 i 14 Tachwedd, roedd gan gyfartaledd o 0.61% o'r boblogaeth gymunedol yng Nghymru COVID-19 (cyfwng credadwy o 95: 0.38% i 0.88%).

- Mae hyn yn cyfateb i tua 1 person ym mhob 165 (cyfwng credadwy o 95: 1 o bob 260 i 1 o bob 115), neu 18,400 o bobl yn ystod y cyfnod hwn (cyfwng credadwy o 95: 11,700 i 26,700).


- Mae'r gyfradd bositifedd wedi gostwng yn ystod y pythefnos diwethaf, ar ôl cyrraedd uchafbwynt ddiwedd mis Hydref.

- Sylwer bod ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrif, a darperir cyfyngau credadwy i ddangos yr amrediad y gallwn fod yn hyderus bod y gwir ffigur wedi'i gynnwys oddi mewn iddo. Gan mai cymharol ychydig o brofion positif y mae'r arolwg yn eu casglu yn gyffredinol, gall y canlyniadau fod yn sensitif i newidiadau bach yn nifer y profion positif hyn.

- Cyhoeddir canlyniadau llawn yma.

**Effeithiau'r cyfnod atal byr ar nifer yr achosion**


- Mae'r ffigur isod yn dangos bod nifer yr achosion o COVID-19 a gadarnhawyd bob dydd (cyfartaledd treigl 7 diwrnod, fesul 100,000 o'r boblogaeth) yn gostwng, ond dilynwyd hyn gan gynnydd mewn achosion.




**Ffynhonnell:** Data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 21 Tachwedd 2020

## Proffil oedran

- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer yr episodau COVID-19 a gadarnhawyd am bob 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl wythnos casglu sampl a grŵp oedran. Ar 19 Tachwedd 2020, gwelwyd gostyngiad yn nifer yr achosion ar draws pob grŵp oedran. Roedd yr achosion ar eu huchaf ymhlith pobl 85 oed a hŷn.





**Ffynhonnell:** Dangosfwrdd Llywodraeth Cymru, data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fel ag yr oeddent ar 19/11/2020

**Marwolaethau**

- Yn ôl data dros dro am dystysgrifau marwolaeth a ddarparwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, cofrestrwyd 166 o farwolaethau COVID-19 ymhlith trigolion Cymru, gyda COVID-19 wedi'i grybwyll ar y dystysgrif marwolaeth yn ystod wythnos 45 (a ddaeth i ben ar 6 Tachwedd). Mae hyn yn gynnydd o 45 ers yr wythnos flaenorol.


- Mae nifer y marwolaethau o bob achos wedi cynyddu'n uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd o'i gymharu â'r un wythnos ar gyfer blynyddoedd blaenorol.
- Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, roedd nifer y marwolaethau hyd at 13 Tachwedd 2020 9% yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd yng Nghymru, gyda 10% o'r rhain yn crybwyll COVID-19. Mae hyn yn is na'r hyn a welwyd yn Lloegr, lle'r oedd nifer y marwolaethau 13.3% yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd, gydag 11.6% o'r rhain yn crybwyll COVID-19. Fodd bynnag, wrth ystyried data diweddar o tua mis Hydref ymlaen, roedd y gyfradd marwolaethau ychwanegol ar gyfer Cymru yn uwch nag ar gyfer Lloegr (13% o gymharu â 9%) ac yn uwch na'r rhan fwyaf o ranbarthau Lloegr.
- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer wythnosol y marwolaethau COVID-19 (unrhyw sôn amdano ar y dystysgrif marwolaeth) a'r cyfartaledd 5 mlynedd (2015-2019), ar gyfer yr wythnos yn dod i ben 3 Ionawr 2020 (Wythnos 1) tan yr wythnos yn dod i ben 6 Tachwedd 2020 (Wythnos 45).




Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru

### Glynu wrth y mesurau presennol a dealltwriaeth ohonynt

- Mae data diweddaraf [IPSOS MORI](#) (newydd yr wythnos diwethaf) ar gyfer y cyfnod 6–9 Tachwedd yng Nghymru yn dangos canlyniadau tebyg i'r hyn a welwyd bythefnos yn ôl o ran nifer o ymddygiadau lliniaru allweddol. Gwelwyd cynnydd pellach yn nifer y bobl a oedd yn dweud eu bod yn gweithio gartref, yn gwneud teithiau hanfodol yn unig ac yn osgoi teithiau nad ydynt yn hanfodol. Mae'r data hyn yn cwmpasu penwythnos olaf y cyfnod atal byr. Dylid nodi mai'r unigolion eu hunain sy'n cofnodi a ydynt wedi glynu wrth y mesurau ai peidio, ac y bydd dealltwriaeth unigolion o'r rheolau a'r amgylchiadau sy'n berthnasol iddynt hwy yn effeithio ar y data.
- Mae'r ffigur isod yn cynrychioli data a gasglwyd ar-lein gan IPSOS MORI fel rhan o arolwg a gynhaliwyd mewn sawl gwlad ar lwyfan Global Advisor. Mae pob un o'r camau wedi cynnwys oddeutu 600 o ymatebwyr yng Nghymru. Mae'r sampl yn fras yn cynrychioli'r boblogaeth oedolion 16-74 oed. Mae'r data'n cael eu pwysoli i adlewyrchu proffil oedran a rhyw poblogaeth Cymru rhwng 16 a 74 oed. Mae gan bob sampl ffin cyfeiliornad. Ar gyfer sampl o tua 500, mae hyn yn +/- 4.8 pwynt canran.




- Mae canlyniadau diweddaraf (newydd yr wythnos diwethaf) o'r [Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ynghylch Iechyd a Llesiant yn ystod y Mesurau Coronafeirws](#) ar gyfer y cyfnod 2-8 Tachwedd yn dangos bod 50% o bobl yn dweud eu bod yn deall y cyfyngiadau yn eu hardal leol yn 'dda iawn'. Dywedodd 42% arall e bod yn deall y cyfyngiadau yn 'eithaf da'. Mae'r canlyniadau hefyd yn dangos bod 45% o bobl wedi dweud eu bod yn dilyn y cyfyngiadau coronafeirws

yn 'gyfan gwbl' a bod 45% arall eu bod yn cydymffurfio â'r mwyafrif. Mae hyn yn debyg iawn i ganlyniadau'r astudiaeth gymdeithasol Covid. Dywedodd 23% fod pobl y tu allan i'w haelwyd/aelwyd estynedig a ganiateir wedi bod yn eu tai, tra dywedodd 16% eu bod wedi bod yn nhai pobl eraill.

- Mae astudiaeth gymdeithasol Covid (data hyd at 9 Tachwedd) yn dangos bod cydymffurfiaeth lwyr a chydymffurfiaeth fwyafrifol yn y DU wedi cynyddu ychydig. Mae'r adroddiad yn nodi '*The patterns of compliance remain as they were for the last few months though, with compliance lower in higher income households, in England, in urban areas, amongst women, amongst people without a physical health condition, and amongst adults living with children compared to adults not living with children.'*

**Symudedd**

- Ers i'r cyfnod atal byr ddod i ben, dychwelodd symudedd i'r lefelau a welwyd cyn iddo ddechrau, gyda'r ail wythnos ar ôl y cyfnod atal byr yn dangos ychydig o newid (lle bo data ar gael). Yn dilyn y gostyngiadau mawr yr wythnos flaenorol oherwydd y cyfyngiadau symud yn Lloegr, nid yw'r wythnos neu ddwy ddiweddaraf yn dangos fawr o newid ar draws y DU/Lloegr.


- Mae symudedd defnyddwyr Facebook yng Nghymru yn dangos bod symudedd 12% yn is na'r llinell sylfaen ar gyfer yr wythnos hyd at 17 Tachwedd. Mae hyn i fyny o 20% yr wythnos flaenorol (sy'n cynnwys rhai dyddiau yn ystod y cyfnod atal byr). Canran y defnyddwyr a oedd yn aros lle'r oeddent (yn agos at adref) oedd 26%, i lawr o 29% yr wythnos flaenorol. Yn yr wythnos cyn y cyfnod atal byr roedd yn 25%. Y llinell sylfaen yw'r gwerth canolrifol ar gyfer yr un diwrnod o'r wythnos, yn ystod y cyfnod 4 wythnos rhwng 2 Chwefror a 29 Chwefror, 2020.

- Mae data Apple ar gyfer yr wythnos hyd at 20 Tachwedd yn dangos bod ceisiadau am gyfarwyddiadau gyrru yng Nghymru i fyny o'r wythnos flaenorol (sy'n cynnwys rhai dyddiau yn ystod y cyfnod atal byr) i 92% o'r llinell sylfaen (i fyny o 90%). Mae ceisiadau am gyfarwyddiadau cerdded a cheisiadau am gyfarwyddiadau trafnidiaeth gyhoeddus hefyd yn dangos cynnydd. Y llinell sylfaen yw 13 Ionawr 2020.

- Mae data symudedd Google hyd at 17 Tachwedd yn dangos gostyngiadau mewn symudedd preswyl (h.y. pobl yn treulio mwy o amser gartref) o gymharu â'r wythnos flaenorol - 9% yn uwch na'r llinell sylfaen, i lawr o 12% (sy'n cynnwys rhai dyddiau yn ystod y cyfnod atal byr). Mae pob categori arall yn dangos cynnydd o'i gymharu â'r wythnos flaenorol (ac eithrio parciau) – manwerthu a hamdden yn fwyaf nodedig – 22% yn is na'r llinell sylfaen, ond i fyny o 39% yn is na'r llinell sylfaen yr wythnos flaenorol (sy'n cynnwys rhai dyddiau yn ystod y cyfnod atal byr).

- Mae'r Ffigur isod yn dangos y newid o ran symudedd yng Nghymru gan ddefnyddio data symudedd Google. Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd yr awdurdodau lleol hynny sydd â data. Y llinell sylfaen yw'r gwerth canolrifol, ar

gyfer y diwrnod cyfatebol o'r wythnos, yn ystod y cyfnod 5 wythnos o 3 Ionawr i 6 Chwefror 2020. Nid yw'r data ar gyfer sawl categori ar gael ar gyfer 17 Awst – 10 Medi oherwydd nad yw'r data'n bodloni trothwyon ansawdd.






- Dengys data ffôn symudol O2 hyd at 13 Tachwedd, sy'n ddienw ac wedi'u hagregu, y bu cynnydd mawr mewn teithiau o'i gymharu â'r wythnos flaenorol wrth i'r cyfnod atal byr ddod i ben. Cynyddodd teithiau sy'n dechrau yng Nghymru 15 pwynt canran i 32% yn is na'r llinell sylfaen. Gostyngodd teithiau yn Lloegr yn sydyn o gymharu â'r wythnos flaenorol oherwydd dechrau'r cyfyngiadau symud. Dychwelodd lefelau teithiau i'r hyn oeddent cyn y cyfnod atal byr o ddydd Llun 9 Tachwedd. Y llinell sylfaen ar gyfer data O2 yw'r un diwrnod o'r wythnos yn ystod wythnos gyntaf mis Mawrth.


- Er i'r cyfnod atal byr arwain at ostyngiadau mawr mewn symudedd yn yr wythnos gyntaf, dangosodd yr ail wythnos fod mwy o symudedd – a hynny mae'n debyg oherwydd bod hanner tymor yn yr wythnos gyntaf gydag ysgolion ar gau a phobl yn cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith (fel y dangosir yn y gwahaniaeth yn siart symudedd y gweithle). Mae'r data yn dilyn y cyfnod atal byr yn dangos bod symudedd wedi dychwelyd i'r un lefelau â chyn y cyfnod atal byr. Mae'r wythnos gyntaf yn dangos bod pobl yn treulio amser gartref (symudedd preswyl) a phobl yn mynd i'r gwaith (symudedd gweithle) yn debyg i'r hyn oeddent cyn i'r cyfnod atal byr ddechrau. Mae ambell frig nodedig yn y data ar gyfer manwerthu a hamdden ddydd Llun 9 Tachwedd (y diwrnod cyntaf ar ôl y cyfnod atal byr) a dydd Iau 22 Hydref (y diwrnod cyfan cyntaf cyn y cyfnod atal byr).

- Mae'r siartiau isod yn dangos newidiadau mewn symudedd o'r adeg y dechreuodd y cyfyngiadau symud lleol neu'r cyfnod atal byr. Er enghraifft, dechreuodd y cyfyngiadau symud lleol yng Nghaerffili ar 8 Medi ac yng Nghonwy

dechreuodd ar 1 Hydref. Ystyrir y rhain yn ddiwrnod 0 yn y dadansoddiad, felly 7 diwrnod yn y siartiau fyddai 8 Hydref ar gyfer Conwy neu 15 Medi ar gyfer Caerffili.






## Ymchwil

- Ar hyn o bryd mae 7295 o gleifion o Gymru wedi'u recriwtio i astudiaethau iechyd cyhoeddus brys COVID-19, sy'n gynnydd o 346 yn y 7 diwrnod diwethaf.

- Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn sefydlu Canolfan Dystiolaeth COVID-19 ar gyfer Cymru. Mae ganddi gyllideb gychwynnol o £3m dros 24 mis o fis Ionawr 2021, i ddarparu ymchwil, synthesis tystiolaeth ac ysgogi gwybodaeth, i ddiwallu anghenion tystiolaeth brys ar hyn o bryd ac yn y dyfodol sy'n deillio o bandemig y coronafeirws a'i ganlyniadau ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru a'i effaith arnynt. Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys hysbyseb ar gyfer cyfarwyddwr Canolfan Dystiolaeth COVID-19 newydd Cymru ar gael here.

## Crynodeb gwyliadwriaeth ac epidemiolegol wythnosol COVID-19 gan Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ar 19 Tachwedd 2020

- Roedd cyfran y galwadau i GIG 111 ac NHS Direct yn ymwneud â symptomau COVID-19 posibl yn parhau'n sefydlog o gymharu â'r wythnos flaenorol.

- Parhaodd ymgyngoriadau meddygon teulu ar gyfer heintiau anadlol acíwt (ARI) ac achosion o COVID-19 a amheuir i ostwng yn wythnos 46.

- Ar hyn o bryd, mae galwadau ambiwlans sydd o bosibl yn gysylltiedig â COVID-19 yn sefydlog.

- Fe wnaeth yr episodau COVID-19 a gadarnhawyd ostwng yn genedlaethol o gymharu â'r wythnos flaenorol a chafwyd gostyngiad yn nifer y profion positif.

- Fe wnaeth nifer yr episodau COVID-19 a gadarnhawyd gan labordai ostwng yn genedlaethol o gymharu â'r wythnos flaenorol a gostyngodd nifer y profion positif.

- Yn ystod wythnos 46, gostyngodd nifer yr achosion ar draws pob grŵp oedran, roedd nifer yr achosion ar eu huchaf ymhlith pobl 85 oed a hŷn.

- Mae nifer yr achosion a gadarnhawyd a nifer y profion positif wedi gostwng mewn llawer o ranbarthau byrddau iechyd yng Nghymru, er eu bod yn dal yn uwch nag yr oeddent ddechrau mis Hydref.

- Gostyngodd nifer yr achosion wedi’u cadarnhau a dderbyniwyd i ysbytai o gymharu â'r wythnos flaenorol, ond fe wnaeth nifer yr achosion wedi’u cadarnhau sy'n gleifion mewnol yn yr ysbyty barhau i gynyddu'n genedlaethol, gyda thueddiadau cynyddol yn y rhan fwyaf o’r byrddau iechyd.

- Mae data gwyliadwriaeth diweddar yn awgrymu bod heintiadau COVID-19 yng Nghymru wedi’u gwasgaru’n eang yn ddaearyddol, ond mae’r rhan fwyaf o ardaloedd awdurdodau lleol yn gweld tueddiadau gostyngol yn yr achosion a gadarnhawyd a chanran yr episodau profi positif ar gyfer SARS-CoV2.

- Mae niferoedd uchel o ddigwyddiadau'n parhau i gael eu hadrodd, yn bennaf mewn cartrefi gofal preswyl a lleoliadau ysgol.

- Roedd cyfyngiad 'cyfnod atal byr' ledled Cymru ar deithio nad yw'n hanfodol y tu allan i'r cartref rhwng 23 Hydref a 9 Tachwedd.

- Gwelwyd gostyngiad yn nifer yr achosion a gadarnhawyd yn ystod yr wythnosau diwethaf, yn enwedig mewn oedolion ifanc.


- Mae marwolaethau o bob achos wedi cynyddu o gymharu â'r cyfartaledd 5 mlynedd. Gwelwyd cynnydd yn y marwolaethau mewn achosion a gadarnhawyd yn yr ysbyty.

- Mewn marwolaethau lle mae gwybodaeth ar gael o wyliadwriaeth marwolaethau cyflym Iechyd Cyhoeddus Cymru, clefyd cronig y galon, diabetes a chlefyd anadlol cronig yw'r ffactorau risg a gofnodir amlaf (mewn 35%, 28% a 23% o farwolaethau yn y drefn honno).


Mae dangosfwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gael yma ac mae'n cynnwys dadansoddiad gan awdurdodau lleol.

## Defnydd o welyau mewn ysbytai

- Mae'r Ffigur isod yn dangos y defnydd o welyau mewn ysbytai oherwydd achosion COVID-19 a gadarnhawyd, yn ystod ton gyntaf ac ail don y pandemig (cyfartaledd treigl 7 diwrnod, fel ag yr oedd ar 24 Hydref).




- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y cleifion mewn unedau gofal dwys oherwydd achosion o COVID-19 a gadarnhawyd yn ystod ton gyntaf ac ail don y pandemig (cyfartaledd treigl 7 diwrnod, ar 24 Tachwedd).





- Ar 19 Tachwedd, er y gwelwyd gostyngiadau yn nifer y cleifion COVID-19 a chleifion eraill sydd mewn unedau gofal dwys yn ystod yr wythnos a fu, nid oedd gofal 1:1 i bob claf mewn uned gofal dwys yn bosibl mewn rhai byrddau iechyd (roedd prysurdeb unedau gofal dwys yn 107% ar gyfer gofal 1:1, gyda chyfartaledd wythnosol o 97% mewn defnydd gwelyau ledled Cymru; gweler y tabl isod).

- Mae'r tabl isod yn manylu ar ddefnydd cyffredinol gwelyau unedau gofal dwys ar draws byrddau iechyd yng Nghymru, gan gynnwys defnydd cyffredinol o unedau gofal dwys fel canran o nifer y gwelyau y mae'n bosibl eu staffio ar gymhareb 1:1 (yn seiliedig ar y ffaith fod 152 ar gael ledled Cymru). Mae nifer y cleifion COVID-19 mewn unedau gofal dwys wedi cynyddu ers yr wythnos diwethaf.


- Mae'r golofn gyntaf yn y tabl yn dangos yr holl ddefnydd o welyau mewn unedau gofal dwys (cleifion COVID-19 a chleifion eraill) pan ystyrir capasiti ychwanegol posibl.
- Mae'r ffigurau ynghylch defnydd gwelyau yn seiliedig ar gapasiti'r unedau gofal dwys y cawsom wybod amdano gan y byrddau iechyd lleol (cyfanswm o 257 o welyau ar y dyddiad adrodd). Fodd bynnag, unwaith yr eir y tu hwnt i tua 150 o welyau yn cael eu defnyddio mewn unedau gofal dwys, mae'n golygu na ellir eu staffio yn unol â'r gymhareb nyrsio 1:1 sy'n ofynnol ar gyfer Lefel 3, a bydd gofal cleifion yn cael ei effeithio. Hefyd, nid yw hyn yn ystyried amrywiadau rhanbarthol; mae rhai unedau gofal dwys yn agos at eu capasiti ac nid yw cludo cleifion COVID-19 sy'n ddifrifol wael mewn ambiwlans yn ddymunol oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol.

| Bwrdd Iechyd | Defnydd gwelyau unedau gofal dwys lefel 3 % | Defnydd gwelyau unedau gofal dwys lefel 3 (% o'r gwelyau cymhareb 1:1 sy'n cael eu defnyddio) | Cleifion yr amheuir bod COVID-19 arnynt | Cleifion sydd wedi profii'n bositif am COVID-19 |
|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | **63%** | **107%** | **5** | **56** |
| Aneurin Bevan (ABUHB) | 51% | 78% | 4 | 8 |
| Betsi Cadwaladr (BCUHB) | 67% | 108% | 0 | 3 |
| Cwm Taf Morgannwg (CTMUHB) | 70% | 120% | 0 | 15 |
| Caerdydd a'r Fro (CVUHB) | 51% | 139% | 0 | 11 |
| Hywel Dda (HDUHB) | 59% | 86% | 0 | 4 |
| Bae Abertawe (SBUHB) | 97% | 100% | 1 | 9 |


- Mae'r Ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer y bobl sydd wedi cael prawf positif ar gyfer COVID-19 ac sydd mewn unedau gofal dwys mewn ysbytai ar draws y gwahanol fyrddau iechyd yng Nghymru.





- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a dderbyniwyd i'r ysbyty yr amheuir bod COVID-19 arnynt neu y cadarnhawyd hynny. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny.




- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a ryddhawyd o'r ysbyty yr amheuir neu y cadarnhawyd eu bod wedi cael COVID-19. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny.



- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a dderbyniwyd i'r unedau gofal dwys yr amheuir bod COVID-19 arnynt neu y cadarnhawyd hynny. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny.




**Ffon fesur tebygolrwydd Pennaeth y Proffesiwn Asesu Gwybodaeth (PHIA)**

- Lle y bo hynny'n briodol, bydd y Gell Cyngor Technegol yn mynegi tebygolrwydd neu hyder yn y cyngor a ddarperir gan ddefnyddio ffon fesur tebygolrwydd PHIA i sicrhau cysondeb ar draws gwahanol elfennau'r cyngor a roddir.

